Bob mis byddwn yn canolbwyntio ar awdur ysbrydoledig sy'n byw yng Nghymru neu'n ysgrifennu am Gymru! Cewch gyflwyniad i'w llyfr diweddaraf, beth sy'n eu hysbrydoli i ysgrifennu, ac unrhyw gyngor sydd ganddynt i ysgrifenwyr ifanc!

Dod i adnabod



Simon Chandler



Bywgraffiad

Mae Simon Chandler yn hanu o Lundain, ond syrthiodd mewn cariad â Chymru, y Gymraeg a'r gynghanedd. Bellach, mae'n golofnydd yng nghylchgrawn Barddas, mae wedi rhyddhau dau albwm o ganeuon Cymraeg ac mae ganddo englynion mewn dwy flodeugerdd ddwyieithog. Mae'n gyfreithiwr yn ei waith bob dydd, a lluniodd Diogelwn ar gyfer Cymdeithas yr Iaith: cynllun cyfreithiol sy'n gwarchod enwau Cymraeg ar dai a thir. Mae'n rhedeg Grŵp Sgwrs a Pheint Manceinion yn ei ddinas fabwysiedig. Hon yw ei nofel gyntaf.

Crynodeb:

Gall dysgu Cymraeg newid dy fywyd... Wrth fynd drwy bapurau ei mam, mae Katja, athrawes ifanc o'r Almaen, yn darganfod llythyr Cymraeg a anfonwyd i'w hen, hen daid gan gyfaill o Gymro. Er mwyn ceisio darganfod mwy, penderfyna ymweld â Chymru ar achlysur Eisteddfod Genedlaethol Llanrwst. Wrth ddilyn y trywydd o Berlin i ardal chwarelyddol Blaenau Ffestiniog, daw Katja i ddysgu mwy am fywyd... a chyfrinachau ei theulu.

'Mae 'na fwy nag un ffordd o weld y byd... dim ond rhywun o'r tu allan i Gymru allai fod wedi sgwennu hon'
- Sian Northey

Dywed ychydig am *Llygad Dieithrin*, o ble ddaeth yr ysbrydoliaeth, a beth wyt ti'n gobeithio bydd darllenwyr yn gael o'r stori hon...

Oherwydd bod *Llygad Dieithryn* yn nofel ddirgelwch, dylwn beidio â datgelu gormod amdani, ond (yn y bôn) mae Katja, Almaenes ifanc (sydd wedi dysgu Cymraeg ar ôl cael ei hysbrydoli gan straeon chwedlonol am ei hen, hen daid), yn dod i Gymru ar drywydd cyfrinach deuluol sy'n ymestyn dros ganrif i'r gorffennol. Mae yna stori garu ymysg y dirgelwch hefyd. Ysbrydolwyd plot y nofel gan un paragraff bach yn llyfr ffeithiol Vivian Parry Williams, *'Stiniog a'r Rhyfel Mawr*, sy'n sôn am hen waith wisgi o'r enw Frongoch (ger Y Bala) a gafodd ei addasu'n wersyll-garcharor ym 1915 ar gyfer swyddogion ym Myddin yr Almaen. Dwi'n gobeithio y bydd siaradwyr newydd yn gallu uniaethu â Katja, y prif gymeriad, ac y bydd siaradwyr iaith gyntaf yn cael blas ar weld eu byd nhw trwy ei llygaid hi.

Beth yw dy hoff *genres* darllen, a pha lyfrau wyt yn darllen ar hyn o bryd?

Fy hoff *genre* yw nofelau ditectif hanesyddol, ond dwi'n hoff iawn o straeon ysbïo hefyd, a phob math o nofelau eraill. Dwi'n mwynhau darllen nofelau Cymraeg ac Almaeneg (ond nid Saesneg, er fy mod i wedi darllen ambell i nofel Ffrangeg yn y gorffennol hefyd). Yn ddiweddar, dwi wedi darllen *Cwlwm* gan Ffion Enlli, *Ffoi Rhag y Ffasgwyr* gan Myrddin ap Dafydd ac *Adra* gan Simon Brooks, ac dwi newydd ddechrau darllen *Adar Mud* gan Sian Rees, y bydd fy nghlwb darllen i (sef Clwb Darllen Ar-lein Manceinion (a thu hwnt!)) yn ei thrafod yng nghwmni'r awdures ei hun ym mis Medi.

Pa awgrymiadau sydd gyda ti i annog plant a phobl ifanc i ddarllen mwy er pleser?

Hyd yn oed pan oeddwn i'n blentyn yn y 1970au, roeddwn i wrth fy modd gyda llyfrau llafar. Mae gwrando ar lyfr llafar fel cael rhiant yn darllen stori amser gwely i chi, ac dwi'n dal i deimlo rhywbeth tebyg hyd heddiw. Yn fy marn i, dyna ffordd wych o ysgogi plant i ddarllen. Fe gytunodd Cyngor Llyfrau Cymru i ariannu llyfr llafar *Llygad Dieithryn* (wedi'i leisio gan Mererid Hopwood), sy'n cyd-fynd â nofel, er mwyn annog rhagor o bobl (gan gynnwys pobl ifanc) i ddarllen er pleser, ac dwi'n croesawu hynny'n fawr.

carreg-gwalch.cymru

Llyfrgelloedd Cymru
Cael mwy o'ch llyfrgell

... mwy C&A ar wefan llyfrgelloedd.cymru